# FFURFLEN FANYLION

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | Y Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol |
| **Y Math o Ddogfen:** | Polisi / Gweithdrefn |
| **Perchennog y Ddogfen:** | Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd |
| **Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:** | Y Gwasanaethau Academaidd |
| **Pwrpas:** | Disgwylir i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni Addysg Uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai allu astudio a chyflwyno asesiadau mewn pryd yn unol â'r gofynion a bennwyd gan dîm y rhaglen. Yn ogystal, disgwylir iddynt gwblhau eu rhaglen o fewn yr amserlen a bennwyd. Fodd bynnag, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydnabod y gall myfyrwyr wynebu anawsterau annisgwyl a all amharu ar eu cynnydd academaidd.<br><br>Er mwyn cynnal safonau academaidd a sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, mae'n hanfodol bod yr amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar astudiaethau ac asesiadau myfyrwyr yn cael eu rheoli'n briodol. |
| **Cylch Adolygu:** | **Bob dwy flynedd** |

| | |
|---|---|
| **Sut mae'n cysylltu â'r Cynllun Strategol (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
| Bod ar flaen y gad yn y byd modern / Ein lle yn y gymuned / Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr | |
| **Sut mae'n cysylltu â'r Gofrestr Risg (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | |
| STR0002 Diffyg diogelu effeithiol a rheoli'r cynllun Prevent<br>STR0004 Diffyg capasiti/gallu yn yr holl feysydd arbenigol allweddol<br>STR0005 Ni chedwir cyfrinachedd a chydymffurfiaeth data<br>STR0007 Diffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch a strategaethau llesiant<br>STR0008 Pryderon ynghylch ansawdd y profiadau dysgu<br>STR0009 Diffyg perthynas gadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned<br>STR0010 Anallu i gyflawni Safonau'r Gymraeg a disgwyliadau'r cwricwlwm<br>STR0017 Diffyg amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithio'n negyddol ar ganfyddiad dysgwyr, gweithwyr a rhanddeiliaid o GLlM | |
| **Sut mae'n cysylltu â'n gwerthoedd (dileer y rhai nad ydynt yn berthnasol):** | Cydraddoldeb / Ymddiriedaeth / Tegwch / Gonestrwydd / Uchelgais |

| Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog): | Dyddiad: |
|---|---|
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (RL) | 24/03/24 |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (RL) | 24/03/25 |
| • Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau | 20/05/25 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Ansawdd a Safonau Academaidd AU | 09/04/25 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | 21/05/25 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | N/A |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol | 21/05/25 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau | 03/06/25 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | 26/06/25 |
| • Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp | |

| Adran | Disgrifiad o'r newid |
|---|---|
| 2, 3, 4, 5, 6, 7, 10, 13, 14, 16 | Iaith symlach |
| 7.4 | Wedi cynnwys cyfeiriad at y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl / Cefnogaeth ADY |
| 7.5 | Esbonio yr ymdrinnir ag achosion o gamddefnyddio'r Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol o dan y Polisi ar Ymarfer Annheg |
| 8 | Yr adran ar y Dystiolaeth y Gofynnir Amdani wedi'i diweddaru i gynnwys rhestr o dystiolaeth dderbyniol |
| 9 | Yr adran ar y Drefn ar gyfer Gwneud Cais wedi'i diweddaru i fod yn gliriach ac yn symlach |
| 9.4 | Cadarnhad y gall staff wneud ceisiadau ar ran myfyrwyr |
| 11 | Yr adran ar Weithdrefn y Panel Amgylchiadau Esgusodol wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r broses bresennol ac i fod yn gliriach ac yn symlach |
| 12 | Adran newydd yn amlinellu proses newydd o gael cymeradwyaeth gynnar |
| - | Yr adran ar Geisiadau Ôl-weithredol wedi'i dileu a'i chynnwys yn Adran 10 |

| | |
|---|---|
| 16 | Siart llif y weithdrefn newydd |

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? | 5 |
| 2. Pwrpas y Polisi | 5 |
| 3. Datganiad Polisi | 5 |
| 4. Dull Gweithredu | 5 |
| 5. Monitro a Mesur Effaith | 5 |
| 6. Pwrpas y Weithdrefn Hon 4 | 5 |
| 7. Amgylchiadau Esgusodol | 6 |
| 8. Y Dystiolaeth y Gofynnir Amdani | 7 |
| 9. Y Drefn ar gyfer Gwneud Cais | 8 |
| 10. Dyddiadau Cau ar gyfer Cyflwyno Ceisiadau: | 8 |
| 11. Gweithdrefn y Panel Amgylchiadau Esgusodol | 9 |
| 12. Y Weithdrefn ar gyfer Ystyried Cais am Amgylchiadau Esgusodol | 9 |
| 13. Ceisiadau gan Staff | 11 |
| 14. Apeliadau | 11 |
| 15. Ailsefyll Asesiadau | 11 |
| 16. Siart Llif y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol | 12 |
| 18. Asesiadau Effaith | 13 |

## 1. I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni AU y mae un o'r sefydliadau dyfarnu AU a ganlyn wedi awdurdodi GLlM i'w darparu;

- Rhaglenni AU a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor er mwyn i Grŵp Llandrillo Menai eu darparu
- Edexcel/Pearson

1.2 Dylai myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni AU a ddyfernir gan sefydliadau eraill edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Rhaglen, gwefan GLlM neu wefan y sefydliad dyfarnu.

## 2. Pwrpas y Polisi

2.1 Disgwylir i fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni Addysg Uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai allu astudio a chyflwyno asesiadau mewn pryd yn unol â'r gofynion a bennwyd gan dîm y rhaglen. Yn ogystal, disgwylir iddynt gwblhau eu rhaglen o fewn yr amserlen a bennwyd. Fodd bynnag, mae Grŵp Llandrillo Menai'n cydnabod y gall myfyrwyr wynebu anawsterau annisgwyl a all amharu ar eu cynnydd academaidd.

2.2 Er mwyn cynnal safonau academaidd a sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, mae'n hanfodol bod yr amgylchiadau esgusodol sy'n effeithio ar astudiaethau ac asesiadau myfyrwyr yn cael eu rheoli'n briodol.

## 3. Datganiad Polisi

3.1 Mae myfyrwyr yn gyfrifol am roi gwybod mewn da bryd am unrhyw amgylchiadau esgusodol a all effeithio ar eu canlyniadau. Mae Grŵp Llandrillo Menai'n dilyn trefn sy'n seiliedig ar gyflwyno tystiolaeth. Asesir ceisiadau gan y Bwrdd Amgylchiadau Esgusodol er mwyn sicrhau bod pob achos yn cael ei drin mewn ffordd deg a chyson. Ni ddylai myfyrwyr ag amgylchiadau esgusodol gael eu rhoi o dan anfantais, ac ni ddylent ychwaith gael mantais annheg dros fyfyrwyr eraill. Dylai amseriad yr amgylchiadau fod yn berthnasol i'w heffaith honedig. Lle bynnag y bo modd, dylid gwneud addasiadau rhesymol i helpu myfyrwyr i fynychu gweithgareddau addysgu ac i gwblhau gwaith cwrs.

## 4. Dull Gweithredu

4.1 Bydd y Bwrdd Amgylchiadau Esgusodol yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Bydd myfyrwyr yn cael eu hysbysu o ddyddiadau'r panel ar eu tudalen Amgylchedd Dysgu Rhithwir. Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, bydd y Panel yn defnyddio'r polisi i lywio eu penderfyniadau. Bydd penderfyniad y Panel yn cael ei rannu â'r myfyrwyr o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

## 5. Monitro a Mesur Effaith

5.1 Caiff y Polisi ar Amgylchiadau esgusodol ei fonitro a'i adolygu bob dwy flynedd yn unol â phroses gymeradwyo polisïau AU Grŵp Llandrillo Menai a'r corff dyfarnu.

## 6. Pwrpas y Weithdrefn Hon 4

6.1 Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r broses i fyfyrwyr roi gwybod am amgylchiadau esgusodol a allai effeithio ar eu perfformiad academaidd. Mae myfyrwyr yn gyfrifol am roi gwybod cyn gynted â phosibl am unrhyw amgylchiadau esgusodol a all effeithio ar eu canlyniadau, e.e. salwch, profedigaeth neu heriau personol. Pan fo angen, dylai myfyrwyr hefyd geisio cymorth personol i'w helpu i reoli eu sefyllfa. Sicrha'r weithdrefn hon bod amgylchiadau esgusodol yn cael eu trin mewn ffordd deg a chyfiawn sydd hefyd yn cynnal safonau academaidd.

## 7. Amgylchiadau Esgusodol

7.1 Diffinnir Amgylchiadau Esgusodol fel amgylchiadau dros dro / tymor byr:

1. Sydd wedi digwydd yn ystod yr asesiad dan sylw, neu ychydig cyn yr asesiad neu'r arholiad dan sylw.
2. Sy'n amharu ar allu myfyriwr i fod yn bresennol mewn asesiad unigol neu nifer o asesiadau, neu ar ei allu i gwblhau asesiad unigol neu nifer o asesiadau.
3. Sy'n amharu ar allu myfyriwr i fod yn bresennol mewn arholiad unigol neu nifer o arholiadau, neu ar ei allu i gwblhau arholiad unigol neu nifer o arholiadau.
4. Sy'n amharu ar allu myfyriwr i gwblhau lefel, neu'r nifer o fodiwlau y'i cofrestrwyd arnynt mewn blwyddyn academaidd (e.e. pan fydd myfyriwr yn gwneud cais i newid ei batrwm astudio, fel newid o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser).
5. Sy'n eithriadol ac y tu hwnt i reolaeth y myfyriwr.
6. Y gellir eu cadarnhau trwy dystiolaeth annibynnol.

7.2 Enghreifftiau o amgylchiadau a allai gael eu hystyried yn ddilys:

a. Arhosiad mewn ysbyty, gan gynnwys cael llawdriniaeth.
b. Problemau iechyd sy'n effeithio ar allu'r myfyriwr i astudio neu fynychu asesiadau.
c. Problemau personol neu seicolegol y mae'r myfyrwyr un ai'n cael ei gwnsela yn eu cylch neu wedi cael ei gyfeirio at gwnselydd neu ymarferwr proffesiynol arall.
d. Rhoi genedigaeth (gan gynnwys partner yn rhoi genedigaeth).
e. Profedigaeth sy'n cael effaith emosiynol sylweddol.
f. Damwain neu anaf difrifol, afiechyd neu gyflyrau difrifol sy'n cyd-daro â dyddiad cyflwyno asesiad neu ddyddiad arholiad neu brawf, neu sy'n para am gyfnod digon hir i amharu ar ran sylweddol o'r tymor.
g. Iselder clinigol neu broblemau iechyd meddwl eraill.
h. Byrgleriaeth neu ladrad diweddar, neu ddamwain car ddifrifol.
i. Gwasanaeth rheithgor na ellir ei ohirio.
j. Diagnosis hwyr o anhawster dysgu fel dyslecsia sy'n golygu na ellir cynnig cefnogaeth ddigonol neu ddarpariaeth mewn arholiad.
k. Gwahanu neu ysgariad, naill ai'r myfyriwr ei hun neu ei rieni (cyn belled â bod tystiolaeth i gadarnhau hynny).
l. Damweiniau neu salwch sy'n effeithio ar berthnasau agos

Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o amgylchiadau dilys. Bydd y Panel yn adolygu pob cais yn unigol.

7.3 Mae enghreifftiau o amgylchiadau na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai dilys yn cynnwys:

a. Car wedi torri i lawr, trên neu fws yn hwyr neu wedi'i ganslo, neu broblemau eraill yn ymwneud â chludiant cyhoeddus (os na all y myfyriwr ddangos ei fod wedi caniatáu digon o amser ar gyfer problemau o'r fath y gellid yn rhesymol fod wedi eu rhagweld).
b. Problemau gofal plant y gellid bod wedi eu rhagweld.
c. Damweiniau neu salwch sy'n effeithio ar ffrindiau (os nad ydynt yn ddifrifol, neu'r myfyriwr yw'r unig ofalwr).
d. Mân bryderon, mymryn o iselder, neu bwysau cyffredinol arholiadau.
e. Peswch, annwyd, haint ar y llwybr anadlu uchaf, dolur gwddw, mân heintiau firaol, oni bai bod y salwch ar ei anterth adeg yr arholiad, prawf diwedd modiwl neu brawf yn y dosbarth, a bod y dystiolaeth annibynnol yn cadarnhau'r effaith ar berfformiad y myfyriwr.

f. Problemau ariannol (ac eithrio achosion o galedi eithriadol).
g. Gwyliau, symud tŷ, dathliadau teuluol, neu ddigwyddiadau eraill lle gall y myfyriwr reoli'r dyddiad neu ddewis peidio â chymryd rhan yn y digwyddiad.
h. Problemau cyfrifiadurol, data llwgr, nam ar ddisg neu argraffydd, neu broblemau tebyg yn cynnwys yn cynnwys problemau gyda'r rhyngrwyd neu'r Wi-Fi.
i. Problemau wrth i'r post ddosbarthu'r gwaith (oni bai ei fod yn ddosbarthiad a gofnodwyd neu'n bost cofrestredig).
j. Problemau rheoli amser (e.e. cwblhau gwaith erbyn y dyddiad a nodwyd).
k. Apwyntiadau (cyfreithiol, meddygol ac ati) y gellid eu had-drefnu.
l. Ymrwymiadau i'r Fyddin Diriogaethol neu gorff tebyg (os na ellir eu hosgoi).
m. Ymrwymiadau i chwaraeon neu weithgareddau hamdden (oni bai bod y myfyriwr yn cynrychioli GLlM mewn cystadleuaeth genedlaethol neu'n cynrychioli ei wlad mewn cystadleuaeth ryngwladol).
n. Dadgofrestru
o. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o amgylchiadau annilys. Bydd y Panel yn adolygu pob cais yn unigol.

7.4 Yn achos cyflyrau tymor hir, anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r gefnogaeth DSA / ADY a ddarperir gan Grŵp Llandrillo Menai.

7.5 Os canfyddir bod myfyrwyr wedi camddefnyddio'r broses Amgylchiadau Esgusodol, byddant yn destun achos disgyblu o dan y polisi ar Ymarfer Annheg.

## 8. Y Dystiolaeth y Gofynnir Amdani

8.1 Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, rhaid seilio ceisiadau am amgylchiadau esgusodol ar dystiolaeth a rhaid i banel eu hystyried ar sail canllawiau a ddiffiniwyd yn eglur.

8.2 Dylai'r dystiolaeth gadarnhau bod yr amgylchiadau:
1. yn anochel
2. wedi amharu ar eich gallu i gwblhau aseiniad neu arholiad
3. wedi digwydd yr un pryd â'r cyfnod astudio / asesu yr effeithiwyd arno

8.3 Mae enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol yn cynnwys:

a. Nodyn salwch
b. Llythyr / tystysgrif feddygol gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol.
c. Llythyr gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Gyfreithiwr
d. Tystysgrif marwolaeth
e. Adroddiad gan yr heddlu neu rif cyfeirnod trosedd
f. Gohebiaeth swyddogol gan awdurdod llys neu dribiwnlys
g. Llythyr cyfreithiwr
h. Llythyr gan eich rheolwr llinell neu oruchwyliwr lleoliad gwaith
i. Dogfennau yswiriant

**Noder:** Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o dystiolaeth ddilys.

8.4 Fel rheol, ni fydd datganiad gan riant, gwarcheidwad, priod, neu bartner yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth annibynnol. Yn yr un modd, fel rheol, ni fydd datganiad gan aelod o staff academaidd yn cael ei dderbyn heb dystiolaeth ddogfennol ychwanegol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

8.5 Nid yw tystysgrifau meddygol a lofnodwyd gan berthynas yn dderbyniol.

8.6 Mae gan y Panel hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol am amgylchiadau esgusodol os nad yw'r dogfennau gwreiddiol yn ddigonol neu os nad ystyrir bod yr amgylchiadau yn ddigon difrifol i warantu ystyriaeth.

## 9. Y Drefn ar gyfer Gwneud Cais

9.1 Anogir y myfyriwr i hysbysu ei Arweinydd Rhaglen os na fydd yn gallu cwblhau'r gwaith mewn pryd.  Yna gall Arweinydd y Rhaglen ddarparu cymorth er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r broses, y canlyniadau posibl a, lle bo hynny'n ymarferol, helpu i nodi adnoddau i'w gynorthwyo i gwblhau'r asesiad.  Bydd y myfyrwyr yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai ac yn cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael gan aelod o Dîm y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr a all, os oes angen, roi cymorth unigol mewn perthynas â'r Weithdrefn ar Amgylchiadau Esgusodol.

9.2 Gall y myfyriwr wneud cais i'w Reolwr Rhaglen am Amgylchiadau Esgusodol yn annibynnol trwy lenwi ffurflen Amgylchiadau Esgusodol.

9.3 Gall myfyrwyr wneud cais am gyflwyno gwaith yn hwyr neu am berfformio'n wael. Mewn achosion eithriadol, gellir caniatáu i'r myfyriwr wneud cais am gyfuniad o'r ddau.

1. Cyflwyno gwaith yn hwyr. Mae myfyriwr yn gofyn am estyniad i'r dyddiad cyflwyno gwreiddiol ac yn ceisio cael y gwaith wedi'i farcio heb gael cosb am fod yn hwyr.
2. Perfformio'n wael. Mae myfyriwr yn gofyn i'w amgylchiadau gael eu nodi a'u hystyried gan y Bwrdd Arholi.

9.4 Mewn achosion eithriadol, gall yr Arweinydd Rhaglen gyflwyno cais ar ran y myfyriwr, cyn belled â'i fod wedi cael caniatâd penodol gan y myfyriwr i wneud hynny.

9.5 Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg.

## 10. Dyddiadau Cau ar gyfer Cyflwyno Ceisiadau:

10.1 Lle bynnag y bo modd, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu ceisiadau cyn gynted â phosibl. Os derbynnir ceisiadau sy'n cyfeirio at asesiadau a oedd i'w cwblhau fwy na mis cyn cyfarfod y Panel, bydd gofyn i'r myfyriwr egluro pam na chyflwynwyd y cais mewn pryd. Mewn achosion o'r fath, gall y Panel wrthod y cais neu bennu cosb am wneud y cais yn hwyr.

10.2 Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno cais trwy gwblhau'r Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol, sydd i'w chael ar eu tudalen Amgylchedd Dysgu Rhithwir a'r wefan Polisïau AU. Caiff ymgeiswyr wybod am ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar dudalen Moodle eu rhaglen a thrwy dimau addysgu'r cyrsiau.   Fel arfer, bydd y dyddiad cau un wythnos cyn unrhyw gyfarfod o'r Panel Amgylchiadau Esgusodol.

10.3 Fel rheol, ni chaiff ceisiadau ôl-weithredol am amgylchiadau esgusodol eu hystyried, oni bai bod rhesymau eithriadol iawn dros beidio â'u cyflwyno ymlaen llaw.  Yn arferol, dim ond os nad oedd y myfyriwr yn gallu datgelu'r amgylchiadau ynghynt oherwydd mai newydd gael ei wneud y mae'r diagnosis o gyflwr meddygol y byddai hyn yn berthnasol.  Oni bai bod amgylchiadau eithriadol o'r fath yn berthnasol, ni fydd ceisiadau am amgylchiadau eithriadol a gyflwynir yn ôl-weithredol yn cael eu hystyried yn ddilys.

10.4 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau am Amgylchiadau Esgusodol cyn y Byrddau Arholi. Os oes rheswm dilys dros beidio â chyflwyno cais i'r Panel, dylai myfyrwyr gyfeirio at bolisi Apeliadau AU GLlM.

## 11. Gweithdrefn y Panel Amgylchiadau Esgusodol

11.1 Bydd aelodaeth y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn cynnwys:

- Y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd (a fydd yn cadeirio)
- Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd AU (a all gadeirio os bydd angen)
- Rheolwr o'r Gwasanaethau i Ddysgwyr
- Cydlynydd Sicrhau Ansawdd
- Yr Arweinydd Rhaglen priodol
- Aelod o'r tîm ADY (os yw hyn yn berthnasol)

11.2 Bydd gan y Panel yr awdurdod i:

a. Gymeradwy cais ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd
b. Gwrthod cais, os yw'n tybio nad oes sail i'r cais neu nad yw'r cais yn ddigonol.

Er mwyn sicrhau ystyriaeth deg o'r cais, gall y Panel ohirio'r penderfyniad gan aros am ragor o wybodaeth gan dimau eraill yn GLlM neu gan y myfyriwr. Bydd unrhyw ohiriad mor fyr â phosibl.

11.3 Bydd y Bwrdd Amgylchiadau Esgusodol yn ystyried y ceisiadau ar sail y canlynol:

1. Swm y gwaith yr effeithiodd yr amgylchiadau arno
2. Am ba hyd y bydd yr amgylchiadau'n effeithio ar waith y myfyriwr
3. A oes angen cymorth ychwanegol ar y myfyriwr i gwblhau gwaith sy'n hwyr.
4. Unrhyw gais gan y myfyriwr i newid ei batrwm astudio.

11.4 Lle y bo'n berthnasol, rhaid i aelodau'r Panel ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro. Byddant wedyn yn cael eu heithrio o'r broses o wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â'r buddiannau sy'n gwrthdaro. Bydd pob achos o wrthdaro buddiannau'n cael ei nodi a'i gofnodi gan y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd.

11.5 Mae'r panel yn cyfarfod mewn sesiynau caeedig. Ni chaniateir i fyfyrwyr fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

## 12. Y Weithdrefn ar gyfer Ystyried Cais am Amgylchiadau Esgusodol

12.1 Bydd ceisiadau am Amgylchiadau Esgusodol yn cael eu hadolygu i ddechrau gan yr adran Ansawdd AU. Gall yr adran Ansawdd AU gymeradwyo ceisiadau, heb fod angen iddynt fynd ymlaen i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol. Fel arfer mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau syml sy'n bodloni'r holl ofynion canlynol:

1. Mae'r myfyriwr yn gwneud cais am Gyflwyno Gwaith yn Hwyr yn unig.
2. Nid yw'r myfyriwr wedi gwneud cais am Amgylchiadau Esgusodol o'r blaen.
3. Mae'r myfyriwr wedi cyflwyno tystiolaeth dderbyniol.
4. Mae'r estyniad y gwneir cais amdano yn 2 wythnos neu lai.

Ni all yr adran Ansawdd AU wrthod ceisiadau am Amgylchiadau Esgusodol. Cyfeirir unrhyw geisiadau am Amgylchiadau Esgusodol nad ydynt yn cael eu cymeradwyo at y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Bydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn adolygu pob cais a gymeradwywyd gan yr adran Ansawdd AU.

12.2 Bydd y panel Amgylchiadau Esgusodol yn adolygu'r ceisiadau canlynol:

1. Mae'r myfyriwr wedi gwneud cais am Berfformio'n Wael.
2. Mae'r myfyriwr wedi gwneud cais am Gyflyno Gyflwyno Gwaith yn Hwyr a Pherfformio'n Wael.
3. Mae'r myfyriwr wedi gwneud cais blaenorol am Amgylchiadau Esgusodol, pa un a gymeradwywyd y cais ai peidio.
4. Nid yw'r myfyriwr wedi cyflwyno tystiolaeth gyda'i gais.
5. Mae'r myfyriwr yn gwneud cais am fwy nag un asesiad.
6. Mae'r myfyriwr yn gwneud cais am fwy na 2 wythnos o estyniad.
7. Unrhyw gais y mae'r Adran Ansawdd AU yn ei ystyried yn briodol i'r Panel ei adolygu.

12.3 Bydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Arholi. Cyn i'r Panel hwnnw roi dyfarniad i'r myfyriwr neu ganiatáu iddo fynd ymlaen i ran nesaf y cwrs, bydd yn rhaid iddo fod yn fodlon bod y deilliannau dysgu penodol wedi'u cyflawni. Dosberthir penderfyniadau'r Bwrdd Arholi fel a ganlyn:

1. **Dim Camau i'w Cymryd:** Nid yw'r amgylchiadau esgusodol yn berthnasol i astudiaethau'r myfyriwr, neu bernir bod yr amgylchiadau esgusodol yn annilys, neu fod yr amgylchiadau esgusodol eisoes wedi cael ystyriaeth (e.e. amser ychwanegol neu ddulliau asesu wedi cael eu haddasu eisoes).
2. **Ymestyn Dyddiadau Cyflwyno:** Bernir bod yr amgylchiadau esgusodol yn ddilys ac o ganlyniad mae'r myfyriwr yn cael dyddiadau newydd cyflwyno newydd. Os dychwelwyd y gwaith a farciwyd i'r myfyrwyr eisoes, ac os byddai'r myfyriwr sy'n gwneud cais am amgylchiadau esgusodol elwa ar yr adborth a roddwyd ar yr asesiad, gellir gofyn i'r dysgwr wneud asesiad gwahanol.
3. **Ailgyflwyno Gwaith:** Ni roddwyd ystyriaeth eisoes i amgylchiadau esgusodol yn achos asesiadau mewn modiwl(au) penodol. Dim ond i fodiwlau penodol y mae'r amgylchiadau esgusodol yn berthnasol, ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod wedi effeithio ar unrhyw fodiwlau y tu hwnt i'r rheini.
4. **Perfformio'n Wael:** Bernir bod yr amgylchiadau esgusodol yn ddilys, a chyflwynodd y myfyriwr y gwaith erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt Mae'r myfyriwr yn gofyn i'r Bwrdd Arholi ystyried yr amgylchiadau esgusodol wrth adolygu eu cynnydd academaidd.

12.4 Gall y Bwrdd Arholi benderfynu codi dosbarth y dyfarniad neu ohirio penderfyniad ar gyflawniad academaidd lle bo'r canlynol yn berthnasol:

a. **Codi Dosbarth y Radd:** Ni ellir rhoi ystyriaeth i amgylchiadau esgusodol wrth edrych yn ôl ar lefel y modiwl, er enghraifft, oherwydd y dull asesu, os yw marc y myfyriwr yn ffiniol, neu os oes tystiolaeth bod yr amgylchiadau esgusodol wedi cael effaith y tu hwnt i'r modiwlau penodol y rhoddwyd ystyriaeth iddynt.
b. **Gohirio'r Penderfyniad:** Gofynnwyd am fanylion/cadarnhad pellach o'r amgylchiadau esgusodol. Gellir gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod o Fwrdd Arholi arall (e.e. gohirio o Fwrdd Arholi Lefel 5 i Fwrdd Arholi Lefel 6 - terfynol).

12.5 Os caiff amgylchiadau lliniarol eu cymeradwyo, gweithredir yn unol â rheolau a rheoliadau'r Brifysgol/Corff Dyfarnu.

12.5 Bydd myfyrwyr yn derbyn canlyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol o fewn 5 diwrnod gwaith.

12.7 Bydd crynodeb o gyfarfodydd y Panel yn rhan o'r dogfennau y bydd y Cadeiryddion a'r Cymedrolwyr a'r Arholwyr Allanol yn eu derbyn cyn y Byrddau Arholi.

## 13. Ceisiadau gan Staff

13.1 Dylai Arweinyddion Rhaglenni annog y myfyrwyr i drafod eu hamgylchiadau gyda'u rheolwr, lle bo hynny'n addas, fel y gellir trefnu cefnogaeth briodol. Os oes angen, bydd y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn cyfeirio'r ymgeisydd at CareFirst ac yn hysbysu'r Rheolwr ac Adnoddau Dynol os oes angen cefnogaeth ychwanegol gan GLlM.

## 14. Apeliadau

14.1 Os bydd myfyrwyr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a'r ôl i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol ymdrin â'r achos, bydd rhaid iddynt gyflwyno cais ysgrifenedig llawn i'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd. Rhaid derbyn yr apêl o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr sy'n hysbysu'r myfyriwr o benderfyniad y Panel. Ni fydd hysbysiad syml o ddymuniad i apelio, a gyflwynir yn ysgrifenedig o fewn y terfyn amser, yn cael ei ystyried yn apêl ddilys ac ni chaiff ei dderbyn.

14.2 Ar ôl derbyn apêl, bydd y Cyfarwyddwr Addysg Uwch neu Bennaeth Cynorthwyol, nad yw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen, yn ymgynghori, os yw hynny'n berthnasol i amgylchiadau'r achos, â Chadeirydd y Panel dan sylw.

14.3 Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch neu Bennaeth Cynorthwyol, nad yw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen, wrthod achos sy'n:

- i. Seiliedig ar ffactorau a oedd yn hysbys i'r Panel pan benderfynwyd gwrthod y cais;
- ii. Cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i'r myfyriwr, ac y gallai fod wedi ei dwyn i sylw'r Panel cyn y cyfarfod.

14.4 Os derbynnir yr apêl, caiff ei thrin o dan weithdrefn Apêl y sefydliad dyfarnu.


14.5 Os yw'r myfyriwr yn dal yn anfodlon, gallant fynd ar drywydd y mater drwy Weithdrefn Gwynion Grŵp Llandrillo Menai.

14.6 Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

## 15. Ailsefyll Asesiadau

15.1 Os oes gofyn i fyfyrwyr ailsefyll asesiadau yn ystod yr haf a bod amgylchiadau esgusodol yn effeithio arnynt yn ystod y cyfnod, rhaid iddynt gyflwyno cais newydd ar gyfer y cyfnod hwn.

## 16. Siart Llif y Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol



## 18. Asesiadau Effaith

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 28/02/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr AUac o ganlyniad bydd yn sicrhau na fydd unrhyw fyfyriwr dan anfantais o ganlyniad i amgylchiadau esgusodol a all effeithio ar berfformiad. Noda'r polisi'n glir: 'ni ddylai myfyrwyr ag amgylchiadau esgusodol gael eu rhoi o dan anfantais, ac ni ddylent ychwaith gael mantais annheg dros fyfyrwyr eraill'. (3.1)<br><br>Ailasesu'r polisi 20/05/2025 - diwygio'r polisi fel bod 11.1 bellach yn cadarnhau y bydd aelod o'r tîm ADY yn bresennol yn y panel amgylchiadau esgusodol pan fydd hynny'n briodol | |
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Mae adran 7.2 yn amlinellu'n glir pa amgylchiadau y gellir eu hystyried yn ddilys wrth wneud cais am amgylchiadau esgusodol. Felly, gall y polisi fod o fantais i unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol, cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol sy'n arwain at gyfnod mewn ysbyty neu sy'n effeithio ar allu unigolion i astudio neu fynychu asesiadau, unigolion sy'n rhoi genedigaeth neu'r rhai â phartner sy'n rhoi genedigaeth, neu unigolion sy'n gwahanu neu'n cael ysgariad. | Ni wneir unrhyw ddarpariaeth yn y polisi ar gyfer unigolion a allai fod yn ymprydio yn ystod gŵyl ddiwylliannol neu grefyddol fel Ramadan. Gall ymprydio arwain at flinder ychwanegol, canolbwyntio gwael neu lai a/neu lai o allu neu anallu i gwblhau asesiadau ymarferol. Dylid ystyried amseriad asesiadau ar gyfer unigolion a allai gael eu heffeithio.<br><br>Byddai canllawiau ar hyn neu welliant i'r polisi yn cefnogi ac yn hyrwyddo dealltwriaeth staff a myfyrwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | (Nodweddion gwarchodedig - anabledd, rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil)<br><br>Ailasesu'r polisi 20/05/2025 - diwygio'r polisi fel bod 7.2 bellach yn nodi 'Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o amgylchiadau dilys. Bydd y Panel yn adolygu pob cais yn unigol.' | Ailasesu'r polisi 20/05/2025 - diwygio'r polisi fel bod 7.2 bellach yn nodi 'Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o amgylchiadau dilys. Bydd y Panel yn adolygu pob cais yn unigol.' |
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Ymdrecha'r polisi i sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais oherwydd digwyddiadau neu ddatblygiadau annisgwyl, fel salwch, genedigaeth, diagnosis newydd o anghenion dysgu ychwanegol neu ysgariad/gwahanu.<br>Trwy weithredu'r polisi hwn ymdrechir i hyrwyddo cydraddoldeb. | |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Nid os dilynir y polisi'n iawn. | Dylid ystyried cyfranogiad unigolion mewn defodau crefyddol a diwylliannol a allai effeithio ar eu perfformiad yn ystod asesiadau. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhaid i fyfyrwyr rannu digwyddiadau/dyddiadau â'u tiwtor os yw'n bosibl er mwyn hwyluso proses asesu deg.<br><br>Byddai canllawiau ar hyn neu welliant i'r polisi yn cefnogi ac yn hyrwyddo dealltwriaeth staff a myfyrwyr.<br><br>Ailasesu'r polisi 20/05/2025 - diwygio'r polisi fel bod 7.2 bellach yn nodi 'Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac ni ddylid ei hystyried yn rhestr gyflawn o amgylchiadau dilys. Bydd y Panel yn adolygu pob cais yn unigol.' |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Na. | |

| | |
|---|---|
| **Casgliad** | Diwygio'r polisi i gynnwys ystyriaeth o effeithiau cyfranogiad mewn defodau crefyddol/diwylliannol ar asesiadau - a ellir ystyried hyn yn rheswm dilys dros amgylchiadau esgusodol?<br>Ailaseswyd 20/05/2025 - Parhau â'r polisi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 28/02/2025,<br>20/05/2025 |

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 28/02/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Nid yw'r polisi'n cyfeirio at y Gymraeg.<br><br>Fodd bynnag, mae gweithdrefnau apelio a chwyno GLlM yn rhoi canllawiau clir ynghylch hawliau unigolion i wneud cwyn drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gael ymateb iddi yn y Gymraeg.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg' ac 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy | Dylid diwygio'r polisi i gynnwys datganiad ynghylch hawl unigolyn i apelio a chwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae gan fyfyrwyr hefyd yr hawl i drafod materion personol a allai effeithio ar eu hastudiaethau gyda thiwtor personol neu aelod o'r gwasanaethau i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Os na all staff hwyluso hyn, dylid atgoffa unigolion o'u hawliau a gwneud trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Gall Trosi gefnogi'r gwaith o gyfieithu dogfennau ysgrifenedig i fyfyrwyr unigol yn ôl yr angen.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg' ac 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.' |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.’ | |
| Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Nid yw'r polisi'n cyfeirio at y Gymraeg.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi ‘Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg’ ac ‘Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.’ | Dylid diwygio’r polisi i gynnwys datganiad ynghylch hawl unigolyn i apelio a chwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn unol â Safonau’r Gymraeg, mae gan fyfyrwyr hefyd yr hawl i drafod materion personol a allai effeithio ar eu hastudiaethau gyda thiwtor personol neu aelod o'r gwasanaethau i ddysgwyr sy’n siarad Cymraeg. Os na all staff hwyluso hyn, dylid atgoffa unigolion o'u hawliau a gwneud trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Gall Trosi gefnogi'r gwaith o gyfieithu dogfennau ysgrifenedig i fyfyrwyr unigol yn ôl yr angen.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi ‘Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg’ ac ‘Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.’ |
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? | Mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi gweithrediad y polisi hwn. Lle nad oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, gellir darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu testun.<br><br>Yn ogystal, gellir darparu cefnogaeth gan uwch reolwr arall, sy'n siarad Cymraeg. | Lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, bydd tîm cyfieithu'r Grŵp neu aelod ychwanegol o'r uwch dîm rheoli sy'n siarad Cymraeg yn darparu cefnogaeth i hwyluso unrhyw geisiadau am amgylchiadau esgusodol drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd? | Lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, bydd tîm cyfieithu'r Grŵp neu aelod ychwanegol o'r uwch dîm rheoli sy'n siarad Cymraeg yn darparu | |

| | | |
|---|---|---|
| | cefnogaeth i hwyluso ceisiadau am amgylchiadau esgusodol drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai? | Nid yw'r polisi presennol yn cyfeirio at y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd polisïau ategol fel y weithdrefn gwyno yn galluogi'r polisi hwn i gydymffurfio'n rhannol.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg' ac 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.' | Dylid diwygio'r polisi i gynnwys datganiad ynghylch hawl unigolyn i apelio a chwyno drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae gan fyfyrwyr hefyd yr hawl i drafod materion personol a allai effeithio ar eu hastudiaethau gyda thiwtor personol neu aelod o'r gwasanaethau i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Os na all staff hwyluso hyn, dylid atgoffa unigolion o'u hawliau a gwneud trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Gall Trosi gefnogi'r gwaith o gyfieithu dogfennau ysgrifenedig i fyfyrwyr unigol yn ôl yr angen.<br><br>03/04/2025 - Diwygiwyd y polisi yn dilyn argymhellion ac mae bellach yn nodi 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wneud ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg' ac 'Mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.' |
| **Casgliad** | Diwygio'r polisi 03/04/2025 - Parhau â'r polisi ar ôl ei ddiwygio. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 28/02/2025/ **03/04/2025** |

## Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 19/03/2025 |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp? | Ni fydd y polisi hwn yn effeithio ar Bolisi'r Grŵp ynghylch | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r Polisi a'i brosesu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 19/03/2025 |